

Diwrnod Gwranddo, Tachwedd 2020



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Ar hyd y pandemig yma, dyma ein prif flaenoriaethau:

1. Ein bod ni'n sicrhau cyn lleied o amharu â phosibl ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, ochr yn ochr â diogelu eu hawl i gael iechyd da.
2. Bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, a bod rhaid iddyn nhw fod yn ganolog i benderfyniadau llywodraethau ar bob lefel, gan gynnwys swyddogion iechyd cyhoeddus.
3. Bod canllawiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu gwerthuso'n gyson ac yn esblygu ar sail barn plant a phobl ifanc.

Mae ein gwaith wedi cael ei sbarduno gan farn a phrofiadau plant a phobl ifanc, ry' ni wedi ymgysylltu â nhw'n uniongyrchol, a'u teuluoedd, sy'n cysylltu trwy ein gwasanaeth cyngor a chymorth annibynnol.

Cefndir

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref y byddai'n rhaid i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 9 - 13 yn yr ysgol uwchradd a myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach ddysgu gartref am wythnos ychwanegol ar ôl hanner tymor mis Hydref, dyma'r pethau y galwom ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud:

- Er ein bod yn derbyn bod rhaid i'r Llywodraeth wneud rhai penderfyniadau anodd iawn yn gyflym, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol a rhagweithiol i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau o'r fath.
- Rhaid sicrhau nad yw'r asesiad o effaith penderfyniadau ar hawliau plant yn troi o gwmpas eu hawl i iechyd yn unig, ond ar hawliau eraill hefyd, gan gynnwys hawliau iechyd a llesiant ehangach, eu hawl i addysg, i weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, i fywyd teuluol, i wybodaeth glir a chywir, ac i gael eu cynnwys yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'u deall.
- Dylai effeithiau negyddol posibl fel amharu ar addysg gael eu lliniaru ar lefel genedlaethol, fel nad oes loteri côd post ar draws Cymru o ran mynediad plant at addysg a gwasanaethau cymorth allweddol eraill.

Yn ei ymateb i hyn, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru, ymhlith pethau eraill, fod:

"...hawliau plant wedi cael lle blaenllaw yn ein meddyliau, a lywiwyd gan Asesiad Effaith ar Hawliau Plant... Wrth lunio'r cyfnod clo byr, fe wnaethon ni geisio amharu cyn lleied â phosibl ar addysg, ochr yn ochr â gwybod bod rhaid i effaith gronol y cyfyngiadau fod mor ddwfn â phosibl er mwyn cael yr effaith fwyaf."

Ein diwrnod gwrando: 13^{eg} o Dachwedd 2020

Roedden ni'n awyddus i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am effaith cyfyngiadau'r cyfnod clo byr (*firebreak*) arnyn nhw, er mwyn llywio ein cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch unrhyw fesurau i'r dyfodol. Fe wnaethom benderfynu cynnal diwrnod gwrando. Pwrpas hyn oedd darparu lle diogel i ddysgwyr o flynyddoedd 9-13 rannu gyda ni eu profiad o aros gartref am wythnos arall o ddysgu a rhannau eraill o'u bywyd yn ystod y cyfnod clo byr, gan gynnwys cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, cefnogaeth iechyd meddwl, a gweithgareddau fel chwaraeon. Dyma'r cwestiynau fu'n tywys ein trafodaethau:

1. Beth oedd y trefniadau yn yr ysgol/y coleg ar gyfer eich dysgu?
 - a. Y math o wersi: gwersi byw neu wedi'u recordio ymlaen llaw, google classroom, cyfarwyddiadau e-bost.
 - b. Trefniadau ar gyfer mynediad digidol — ydych chi'n gwybod oedd gan bawb liniadur neu dabled?
2. Sut oedd y dysgu i chi?
 - a. Gwahanol neu debyg i brofiadau'r tymor diwetha?

- b. Symbyliad ar hyd yr wythnos?
 - c. Ymgysylltu â'r athrawon ac adborth ganddyn nhw?
3. Oeddech chi'n deall rheolau'r cyfnod clo byr? Sut cawsoch chi wybod amdany'n nhw? Beth yw eich profiad chi o'r rheolau nawr bod y cyfnod clo byr drosodd?
 4. Sut mae'r tymor wedi bod hyd yma yn eich ysgol/coleg? Ydych chi wedi gorfod hunanynysu fel dosbarth/grŵp blwyddyn? Sut mae rheolau Covid yn effeithio ar bethau? Unrhyw sylwadau am y trefniadau ar gyfer arholiadau?
 5. Sut gwnaeth y cyfnod clo byr effeithio ar rannau eraill o'ch bywyd? (awgrymu pethau fel: cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, clybiau a chwaraeon).
 6. Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y gefnogaeth a'r wybodaeth i bobl ifanc ar hyn o bryd?
 - a. Ydych chi'n meddwl eich bod chi a'ch ffrindiau'n gwybod sut i gael help gyda phethau fel iechyd meddwl a chyngor?
 7. Beth yw eich cyngor i'r llywodraeth os byddan nhw'n penderfynu trefnu cyfnod clo byr arall?

Fe glywsom ni gan 55 o bobl ifanc sy'n astudio yng ngogledd-orllewin, gogledd-ddwyrain, de-orllewin a de-ddwyrain Cymru, ac fe gynhaliwyd y sesiynau yn eu dewis iaith. Daeth disgyblion ysgol (dwy ysgol Gymraeg ac un ysgol Saesneg), myfyrwyr coleg, pobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu, pobl ifanc â phrofiad o ofal, ac aelodau o bedair fforwm ieuencid i'r sesiynau hyn. Fe gynhalion ni sesiwn hefyd gyda'n panel ymgynghorol ieuencid sy'n mynd i fwy na 15 o wahanol ysgolion a cholegau yng Nghymru, a pherson ifanc oedd yn cael addysg gartref. Roedd y Comisiynydd yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd, ynghyd ag aelodau o'i thîm.

Nodyn: Er bod y rhan fwyaf o'r sesiynau wedi cael eu cwblhau mewn un diwrnod, cynhaliwyd ambell un yn ddiweddarach yn yr wythnos i gyd-fynd ag amserlenni ysgolion a grwpiau.

Beth glywsom ni yn ystod ein diwrnod gwranddo

Mae'r crynodeb canlynol dienw o brofiadau yn rhoi ciplun ar unwaith o brofiadau pobl ifanc o addysg wedi cyfnod clo byr mis Hydref.

Profiadau o'r addysg sy'n cael ei chynnig

Beth weithiodd

- Mae'r addysg sydd ar gael ar-lein gan ysgolion wedi gwella'n sylweddol ers y cyfnod cyn gwyliau'r haf. Dyma oedd barn unfrydol pob person ifanc a fu'n cymryd rhan.
 - o Dyma rai enghreifftiau: athrawon yn rhannu cyflwyniadau PowerPoint a fideos cyn y wers; llawer o wersi'n cael eu cyflwyno'n fyw, yn ystod y cyfnod clo cyntaf roedd rhai disgyblion yn teimlo eu bod nhw ddim yn cael anogaeth i weithio — roedd pethau'n wahanol y tro yma; dilyn amserlen arferol yr ysgol;
- Gwnaeth yr ysgolion addasiadau priodol i rai, gan gynnwys gofalwyr ifanc
 - o Dyma rai enghreifftiau: recordio gwersi fel bod disgyblion yn gallu mynd yn ôl i wrando ar adeg fwy cyfleus
- Rhai ysgolion yn gwella'r hyn roedden nhw'n ei gynnig yn barhaus
 - o Dyma rai enghreifftiau: gwahodd disgyblion i lenwi arolwg ar-lein i roi adborth ar y dysgu ar-lein yn ystod y cyfnod clo byr
- Rhyddid i weithio ar eu cyflymdra eu hunain
- Gallu defnyddio dyfeisiau eraill fel Xbox i gyrraedd y gwersi
- Ysgolion yn gwirio bod gan bob disgybl ddyfais electronig cyn hanner tymor
- Adborth cyflym gan athrawon i waith a gyflwynwyd ar-lein

Beth oedd heb weithio

- Llwyth gwaith gormodol
 - Dyma rai enghreifftiau: pobl ifanc yn aros i fyny'n hwyr i orffen y llwyth gwaith
- Dim cysondeb rhwng y gwaith oedd yn cael ei gynnig ar gyfer gwahanol bynciau
 - Dyma rai enghreifftiau: 'gosododd yr athro hanes ddwywaith cymaint o waith â'n pynciau eraill'
- Mae rhai ysgolion heb werthuso'r dysgu sy'n cael ei gynnig ar-lein
- Doedd rhai athrawon ddim yn deall sut i ddefnyddio'r dechnoleg yn iawn
 - Dyma rai enghreifftiau: athro 20 munud yn hwyr i'r wers; ddim yn ymateb i negeseuon yn gofyn am gefnogaeth/gymorth
- Rhai rhieni heb sgiliau i helpu
 - Dyma rai enghreifftiau: rhieni'n methu rhoi cefnogaeth gyda gwaith na phroblemau technegol; problemau technegol yn golygu bod disgyblion yn colli gwersi; mynediad gwael i'r rhyngwyd
- Roedd yn well gan lawer fod yn yr ysgol i ryngweithio â'r athrawon a'r disgyblion eraill. Gwnaeth llawer y sylw, er bod yr hyn oedd yn cael ei gynnig ar-lein wedi gwella'n fawr, nad oedd i'w gymharu â bod yn yr ysgol neu'r coleg.
 - Dyma rai enghreifftiau: colli trafodaethau ynghylch pynciau; bod ar-lein am gyfnod hir (6 awr) yn flinedig; gofyn i'r disgyblion ddiffodd y camera a'r microffon yn ystod y sesiwn, fel eu bod nhw'n gwranddo'n unig, heb ryngweithio o gwbl
- Pethau oedd yn tynnu eu sylw gartref yn effeithio ar eu dysgu
- Doedd rhai ddim yn ymwybodol bod grwpiau penodol o ddisgyblion yn cael mynd i'r ysgol yn ystod y cyfnod clo byr: chafodd hynny ddim ei gyfathrebu'n glir
- Diffyg cysondeb yn achos rhai rheolau cadw pellter cymdeithasol
 - Dyma rai enghreifftiau: disgyblion yn rhannu desg drwy'r tymor ac yna'n cael cais i eistedd fesul un wrth y desgiau ar ôl y cyfnod clo byr, gan greu dryswch ynghylch beth sy'n ddiogel a beth sydd ddim yn ddiogel
- Roedd rhai'n anghytuno â'r awgrym yn y cyfryngau y dylid gwisgo masgiau yn y dosbarth

Gwelliannau a awgrymwyd gan bobl ifanc

- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r cyfrifoldebau gofalu cynyddol mae rhai pobl ifanc yn eu hwynebu
- I wneud y system yn deg, dylen nhw ystyried gofyn i wahanol grwpiau blwyddyn aros gartref yn eu tro os bydd 'cyfnodau clo byr' yn y dyfodol
- Dylai athrawon sicrhau cysondeb yn lefel y gwaith sy'n cael ei ddarparu a'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi
- Cadw cynifer o blant â phosib yn yr ysgol
- Sicrhau bod gwersi ar gael ar-lein ar gyfer y rhai sy'n gorfod hunanynysu
- Byddai gwersi byw yn dda
- Awgrym bod grwpiau blwyddyn yn cael dod mewn ar ddiwrnodau gwahanol, fel bod yr holl fyfyrwyr yn cael cyfle i weld eu hathrawon, siarad â nhw a gofyn cwestiynau iddyn nhw o leiaf unwaith yr wythnos
- Cais am alluogi unigolyn i hunanynysu yn hytrach na grwpiau blwyddyn cyfan
- Angen gwirioneddol am ganolbwyntio ar iechyd meddwl, oherwydd bod bywyd y cartref ddim yn ddihangfa i bawb
- Cais am egluro ar frys beth fydd ffurf yr asesiadau eleni
- Awgrym bod blynyddoedd ysgol hanfodol yn cael blaenoriaeth, h.y. bod blynyddoedd 11-13 yn cael mynd i'r ysgol, yn hytrach na blynyddoedd 7-9
- Dylai hysbysiaidau gwybodaeth gael eu postio ar Hwb i'r holl ddisgyblion (ac ysgolion) eu gweld — byddai pobl ifanc yn gwybod bod unrhyw wybodaeth sydd yno ddim yn 'newyddion ffug'

Profiadau bywyd eraill

Beth weithiodd

- Llawer o weithgareddau cymdeithasol yn digwydd ar-lein nawr
- Roedd rhai yn ffafrio'r cyfnod clo llai — pythefnos

Beth oedd heb weithio

- Roedd rhai rheolau'n anodd eu deall
 - o Dyma rai enghreifftiau: cyn y cyfnod clo byr, pam roedd plant yn gallu cymysgu yn yr ysgol ond nid mewn clybiau; roedd hyfforddiant pêl-droed wedi ailgychwyn, ond nid hyfforddiant pêl-rwyd; pryder ynghylch swigod cymdeithasol i bobl ifanc â phrofiad o ofal, yn enwedig wrth feddwl ymlaen at y Nadolig; swigod mewn colegau a swigod eraill gartre — cwestiynu sut roedd hynny'n ddiogel
- Roedd rhai'n gweld eisiau'r agwedd gymdeithasol ar weithgareddau ar ôl ysgol a chyfluoedd cyffredinol i gymdeithasu gyda ffrindiau ac aelodau o'r teulu
- Peth pryder gwirioneddol am yr effaith roedd hyn yn ei chael ar eu hiechyd meddwl

Beth allai gael ei wella - awgrymiadau gan bobl ifanc

- Eglurder ynghylch a fydd cyfnodau clo byr eraill
- Eglurder ynghylch pryd bydd pobl yn gallu mynd i wylïo chwaraeon (soniwyd am hyn fel ffordd i wella iechyd meddwl)
- Rheolau cyson ymhobman ynghylch pethau fel gwisgo masgiau

Pwy arall sydd angen gwranddo ar ein diwrnod gwranddo

Wnaethon ni erioed fwriadu cyflwyno hyn fel adolygiad cynhwysfawr o brofiadau. Yn hytrach, roeddwn am gasglu ciplun o safbwyntiau pobl ifanc oedd yn byw mewn gwahanol amgylchiadau a gwahanol rannau o Gymru, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu clywed yn ystod y penderfyniadau roedd ein llywodraeth yn eu gwneud ar gymaint o frys. Rydyn ni'n gwybod o brofiad bod clywed am brofiadau uniongyrchol yn gallu newid sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Rydyn ni'n gobeithio bod y sampl hon o safbwyntiau a gasglwyd yn ystod cyfnod byr gan y fim yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa wirioneddol i Weinidogion, y llywodraeth, a swyddogion iechyd cyhoeddus. Mae gan bobl ifanc yn y wlad hon hawl sydd wedi'i chrisialu yn y ddeddfwriaeth i gael eu clywed ac i gael eu barn wedi'i chymryd i ystyriaeth pan wneir penderfyniadau am eu bywydau. Ry'n ni'n annog llunwyr penderfyniadau i wrando ac ystyried eu barn wrth drafod cyfnodau clo byr posibl yn y dyfodol. Dyma ein tair blaenoriaeth o hyd:

1. Ein bod ni'n sicrhau cyn lleied o amharu â phosibl ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, ochr yn ochr ag amddiffyn eu hawl i gael iechyd da.
2. Bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, a bod rhaid iddyn nhw chwarae rôl ganolog yn y penderfyniadau a wneir gan lywodraethau ar bob lefel, gan gynnwys swyddogion iechyd cyhoeddus.
3. Bod canllawiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn esblygu ar sail barn plant a phobl ifanc.